Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Cofnodion Cryno o gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2025

CYMERADWYWYD

**Yn bresennol:**
Mike Usher (Aelod Annibynnol a Chadeirydd)
Dave Tosh (Aelod Annibynnol ac Is-gadeirydd)
Jane Martin (Aelod Annibynnol)
Jayne Woods (Aelod Annibynnol)
John McSherry (Aelod Annibynnol) (ar-lein)
Laura Davies (Aelod Annibynnol)
Nia Roberts (Aelod Annibynnol o'r Panel Ymgynghorol)

**Hefyd yn Bresennol:**
Michelle Morris (yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru)
Katrin Shaw (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwaith Achos a Chyfreithiol)
Simon Hart (Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Adnoddau Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg)
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth
Rheolwr Cyllid
TIAA
Archwilio Cymru
Heather Beynon (arsylwr)

**1. Datgan Buddiannau**

1.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau i'w nodi.

**2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chworwm**

2.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2.2 Cadarnhawyd bod y cyfarfod yn gwneud cworwm fel y nodir yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor.

**3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025**

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025.

3.2 Cymeradwywyd Cofnodion Cryno'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025 i'w cyhoeddi ar wefan OGCC.

**4. Materion sy'n codi (nad ydynt ar yr agenda fel arall) a Chofnod Gweithredu**

4.1 Nodwyd y Materion sy'n codi a'r Cofnod Gweithredu gan y Pwyllgor.

**5. Materion Archwilio Mewnol**

5.1 **Argymhellion Archwilio Mewnol – Adroddiad Cynnydd**

5.1.1 Nid oedd unrhyw Argymhellion Archwilio Mewnol i'w nodi.

5.2 **Archwilio Mewnol – Cynllun Terfynol ac Adroddiad Cynnydd (SICA)**

5.2.1 Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r sgôr sicrwydd 'sylweddol' a gyflawnwyd ar yr archwiliad mewnol i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gynhaliwyd yn ddiweddar.

**6. Materion Llywodraethu a Risg**

6.1 **Adroddiad a Chofrestr Risgiau a Materion**

6.1.1 Adolygodd y Pwyllgor yr Adroddiad a'r Gofrestr Risg a nododd fod y gweithdy risg ar y cyd rhwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd y diwrnod cynt wedi cynnig nifer o welliannau a fyddai'n cael eu hymgorffori yn y Gofrestr Risg yn y dyfodol.

6.2 **Casgliad y gwaith dilynol ar yr Adolygiad Annibynnol**

6.2.1 Nododd y Pwyllgor gasgliad y gwaith dilynol ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol.  Cytunodd pawb ei fod yn ddarn o waith cadarnhaol a thrylwyr iawn ac roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod yr adolygiad wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a nodwyd y byddai felly'n ffurfio rhan o sesiwn graffu flynyddol y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref.

6.2.2 Mynegodd yr Ombwdsmon longyfarchiadau a diolch i'r EDCL am ei holl waith ar y mater ers y digwyddiad ei hun, a chymeradwyodd y Pwyllgor hyn yn gynnes.

6.3 **Pwnc ystyriaeth fanwl o'r risg allweddol yng nghyfarfod mis Hydref**

6.3.1 Yng ngoleuni'r adolygiad craffu ar ôl Deddfu o Ddeddf OGCC a gynhelir ar hyn o bryd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd, awgrymwyd y gallai'r adroddiad a gyhoeddir gan y Pwyllgor, a oedd i'w gyhoeddi ym mis Hydref ar hyn o bryd, fod y pwnc nesaf i'w ystyried yn fanwl.

6.4 **Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth**

6.4.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y contractwyr cymorth TG newydd wedi adolygu'r Polisi Parhad Busnes.

**7. Materion Archwilio Ariannol ac Allanol**

7.1 **Cyfrifon Blynyddol 2024/25 gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu (Tudalennau 85 i 159)**

7.1.1 Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2024-25 ac roedd yn falch o allu adrodd bod OGCC yn disgwyl cyflawni set ddiamod o gyfrifon, gydag un argymhelliad yn unig gan yr archwilwyr allanol i i'r rheolwyr.

7.1.2 Llongyfarchodd y Pwyllgor y Rheolwr Cyllid a'r tîm dan sylw am eu gwaith dros y flwyddyn flaenorol.

CYMERADWYWYD

7.2 **Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Adroddiad a Llythyr Rheoli**

7.2.1 Cyflwynodd Archwilio Cymru eu Hadroddiad ar eu Harchwiliad o Gyfrifon a'u Llythyr Rheoli ac adleisiodd ddiolch y Pwyllgor i'r tîm yn OGCC am eu cydweithrediad yn ystod yr archwiliad diweddar ac am gynhyrchu set arall o gyfrifon diamod.

7.2.2 Roedd yr archwilwyr yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon. Dim ond yr eitemau blynyddol safonol oedd yn y Llythyr Cynrychiolaeth arfaethedig.

7.2.3 Eu hunig argymhelliad archwilio, a oedd wedi'i dderbyn gan dîm rheoli ac a oedd eisoes yn cael ei weithredu, oedd cael asesiad allanol o'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau i'w ddefnyddio yng nghyfrifon 2025/26.

7.2.4 Ar y cyfan, roedd yn adroddiad a diweddariad glân iawn. Diolchodd y Pwyllgor i'r tîm archwilio, a chytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Rheolwr Cyllid a'r archwilwyr gael sgwrs yn ddiweddarach yn y flwyddyn i gytuno ar amserlen er mwyn cynllunio'r archwiliad ar gyfer y dyfodol.

7.3 **Argymhellion Archwilio Allanol**

7.3.1 Nid oedd unrhyw argymhellion archwilio allanol i'w nodi o waith archwilio blaenorol.

7.4 **Monitro Ariannol Ch1 2025/26**

7.4.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad Monitro Ariannol a chytunodd â barn y Rheolwr Cyllid y byddai'n ddoeth cadw'r tanwariant bach wedi'i glustnodi i ymdopi ag unrhyw bwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn. Nodwyd hefyd fod y Gronfa ar gyfer Gwella Gwasanaethau yn cael ei chynnal ar gyfer rhai prosiectau penodol.

**8. Materion Rheoli'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a Phwyllgor**

8.1 **Adolygiad Blynyddol 2024/25 y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

8.1.1 Nododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Adolygiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg 2024/25 a chytunodd pawb fod y Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol.

8.2 **Materion eraill sydd angen eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

8.2.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

8.3 **Adroddiad Blynyddol ar Chwythu'r Chwiban ac Adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban**

8.3.1 Nododd a chytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiad Blynyddol ar Chwythu'r Chwiban a'r Polisi fel y'u cyflwynwyd.

8.4 **Cofrestr a Datganiadau o Fuddiannau'r Aelodau**

8.4.1 Nodwyd Cofrestr a Datganiadau o Fuddiannau'r Aelodau. Cadarnhaodd yr aelodau y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol.

8.5 **Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

CYMERADWYWYD

8.5.1 Adolygwyd a chytunwyd ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel y'u cyflwynwyd.

8.6 **Myfyrdod ar eitemau i'w hystyried yn y dyfodol**

8.6.1 Trafododd y Pwyllgor bynciau ymchwilio manwl posibl yn y dyfodol ac awgrymodd:

- Adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn dilyn adolygiad o Ddeddf OGCC.
- Y Gofrestr Risgiau
- Seiberddiogelwch

**9. Unrhyw Fusnes Arall**

9.1 Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i Heather Beynon am fynychu fel arsylwr cyn iddi ddechrau fel Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Corfforaethol ddiwedd mis Awst, a chofnododd ddiolch i Simon Hart am wasanaethu fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro yn ystod y misoedd diwethaf, yn ogystal ag am lenwi rôl Pennaeth Gwasanaethau TG dros dro.

9.2 Diolchwyd hefyd i Jane Martin am ei chyfraniad i'r Pwyllgor a hefyd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Panel Ymgynghorol.

9.3 Yn olaf, nododd y Pwyllgor eu diolch a'u dymuniadau gorau i'r Cynorthwyydd Gweithredol a fyddai'n gadael OGCC ym mis Awst i ymgymryd â rôl newydd.

**10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

10.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn swyddfeydd OGCC ddydd Mawrth, 21 Hydref 2025.

*********************************************************************

CYMERADWYWYD